

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru'n** dwyn ynghyd waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ein diben yw sicrhau gwella, cynnal a defnyddio adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

## Croeso i'n unfed ar ddeg cylchlythyr!

**M**ae llawer o gartrefi a busnesau yn ardaloedd y Rhath, Penylan a Heol Casnewydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan lifogydd o Nant y Rhath ac Afon Rhymni. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i ddylunio a chyflwyno cynllun llifogydd. Nod y cylchlythyr hwn yw cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun a'r ymgynghoriad sydd ar y gweill.



### Caniatâd Cynllunio

Fe roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cynllun perygl llifogydd ar yr 20fed Ebrill 2016. Os hoffech edrych ar adroddiad swyddogion cynllunio Cyngor Caerdydd gellid dod o hyd iddo dan gais rhif 15/02501/MJR. Mae yna nifer o amodau cynllunio mae angen i ni gyflawni ac mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Dylunio'r tirluniad terfynol gan gynnwys golwg gorffenedig y gwelydd;
- Ymchwiliadau ychwanegol i ffynonellau o lygryddion yn y ddaear (gan fod y gerddi wedi cael ei ffurfio o ddeunydd o'r tip yn y Cyfnod Edwardaidd);
- Arolygon ecolegol ychwanegol;
- Cytuno ar raglen waith archeolegol fydd yn nodi a chofnodi unrhyw nodweddion o ddiddordeb archeolegol os ddoed o hyd iddynt yn ystod adeiladu.
- Cwblhau'r mesurau diogelu coed; a
- Chytundeb a datblygiad pellach y gelf gyhoeddus arfaethedig.

### Beth nesaf?

Rydym yn y broses o ddatblygu elfennau dyluniad terfynol y cynllun sy'n cynnwys ffeithiau megis manylion terfynol amddiffynfeydd llifogydd, dyluniad adeileddol yr amddiffynfeydd llifogydd a chymeradwyaeth technegol dyluniad Pont Ffordd Waterloo newydd. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i Gyngor Caerdydd i'w cael eu cymeradwyo.

Rydym wrthi'n paratou cyfarwyddyd dylunio gyda Chyngor Sir Caerdydd a Chadw i gyflogi arlunydd i ddatblygu darn addas o gelf gyhoeddus. Os bydd y cyfarwyddyd yn cael ei dderbyn y cam nesaf fyddai penodi arlunydd i weithio gyda'r gymuned leol i ddylunio darn o gelf gyhoeddus sy'n hybu ac sy'n ymdeimlo â dylanwad hanesyddol ac amgylcheddol Gerddi Melin y Rhath.

### Rhaglen Fras yr Adeiladu

Yn amodol ar gadarnhad cyllideb, rydym yn bwriadu cychwyn y gwaith adeiladu y gaeaf nesaf, er mwyn sicrhau y gellid cwblhau'r gwaith o symud coed a llystyfiant ar adeg addas o'r flwyddyn.

Ar hyn o bryd rydym mewn trafodaethau gyda Chyngor Caerdydd i gytuno ar ddyddiadau addas ar gyfer cau Heol Waterloo fel bod modd adeiladu'r bont newydd a hefyd trafod problemau reolaeth traffig arall, a byddwn yn darparu diweddariad unwaith ein bod wedi cael rhaglen y contractwyr, ar gyfer y cynllun.

Gobeithiwn gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ychwanegol a sesiwn galw heibio cyn i ni gychwyn ar y gwaith adeiladu i ganiatáu i chi gwrdd â'n tîm adeiladu, ar gyfer y cynllun.

Er mwyn cysylltu a ni neu  
dderbyn newyddion

Roath@NaturalResourcesWales.gov.uk